CRYNODEB

Nod y llyfryn hwn yw darparu arweiniad i gwmnïau a'u cynghorwyr a chyfranogion eraill ar y gweithdrefnau y bydd y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) yn eu dilyn fel arfer wrth ddewis marchnadoedd i'w hastudio ac wrth berfformio y fath astudiaethau. Mae'r Swyddfa Masnachu Teg wedi cyhoeddi arweiniad ar wahân ar gyfeiriadau at ymchwiliad i farchnadoedd a chwynion mawr a all fod o ddiddordeb.

Ni fwriedir i'r llyfryn hwn fod yn un cynhwysfawr gan na all drafod pob sefyllfa bosibl. Mae'n bwriadu gosod egwyddorion cyffredinol a fframwaith gweithredu y Swyddfa Masnachu Teg fel bod cwmnïau sydd â diddordeb yn y marchnadoedd dan astudiaeth neu sy'n cael eu hystyried am astudiaeth, a budd-ddeiliaid eraill, gan gynnwys cyrff cwsmeriaid a'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r prosesau eang a fydd yn cael eu dilyn.

Mae'r arweiniad hwn yn trafod amrywiaeth o bynciau ac ni ddylid ei ystyried i fod yn awdurdod cyfreithiol. Er bod y llyfryn yn gosod rhai gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid cadw atynt, nid yw llawer o'r prosesau hyn yn ddarostyngedig i reoliadau manwl: ein hagwedd yn hyn o beth yw bod yn gymesur a, lle bynnag y bo'n bosibl, yn agored. Lle mae'r gyfraith yn cynnig hyblygrwydd, mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn cadw'r hawl i wyro oddi ar yr egwyddorion cyffredinol a osodir yn yr arweiniad hwn. Hefyd caiff y Swyddfa Masnachu Teg ddiwygio ac ailgyhoeddi'r arweiniad hwn yng ngoleuni profiad ac unrhyw ddatblygiadau yn y gyfraith ac mewn ymarfer.